# Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

## Cofnodion (RDC(3)-17-09)

**Dyddiad: 19 Tachwedd 2009**
**Amser: 9.30 – 11.30**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru (Cadeirydd)
Mick Bates, Sir Drefaldwyn
Rhodri Glyn Thomas, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Brynle Williams, Gogledd Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Aled Elwyn Jones, Clerc
Meriel Singleton, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Hannah Pitt, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Derek Morgan, Fforwm yr Ucheldir
Helen Minnice-Smith, Fforwm yr Ucheldir
Clive Thomas, Comisiwn Coedwigaeth

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

### 2: Ymchwiliad i ddyfodol yr ucheldiroedd: sesiwn dystiolaeth

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Hannah Pitt i'r cyfarfod a'i gwahodd i wneud datganiad agoriadol. Bu'r tyst yn ateb cwestiynau'r Pwyllgor.

2.2 Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am gynlluniau Strategaeth Amgylcheddol sydd heb eu cwblhau ar dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol oherwydd diffyg arian.

### 3: Ymchwiliad i ddyfodol yr ucheldiroedd: sesiwn dystiolaeth

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Derek Morgan a Helen Minnice-Smith i'r cyfarfod a'u gwahodd i wneud datganiadau agoriadol. Bu'r tystion yn ateb cwestiynau'r Pwyllgor.

3.2 Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am argaeledd arian cynllun Glastir er mwyn galluogi ffermwyr i osod systemau ynni adnewyddadwy i gynhyrchu ynni at eu defnydd hwy, ond mae rheolau cymorth gwladwriaethol yn golygu nad yw ffermwyr yn gallu gwerthu unrhyw ynni dros ben yn ôl i'r grid cenedlaethol.

### 4: Cynnig a wneir o dan Reol Sefydlog 10.37 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer Eitemau 5, 6 a 7

4.1 O dan Reol Sefydlog 10.37(vi), cynigodd y Cadeirydd y dylai'r Pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod i drafod materion yn ymwneud â busnes mewnol.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

### 5: Trafod yr adroddiad ar ddyfodol y diwydiant llaeth

5.1 Cafodd y Pwyllgor gyfle i drafod yr adroddiad ar ddyfodol y diwydiant llaeth, a chytunodd i ddychwelyd at yr adroddiad yn y cyfarfod a gynhelir ddydd Llun 23 Tachwedd.

### 6: Cytuno ar flaenraglen waith 2010

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y blaenraglen waith ar gyfer 2010, a phenderfynodd lansio'r rhaglen yn Ffair Aeaf y Sioe Frenhinol.

### 7: Cytuno ar Adroddiad Blynyddol 2009

7.1 Cytunodd y Pwyllgor ar Adroddiad Blynyddol 2009, a phenderfynodd lansio'r adroddiad yn Ffair Aeaf y Sioe Frenhinol.

## 8: Ymchwiliad i ddyfodol yr ucheldiroedd: sesiwn dystiolaeth

8.1 Croesawodd y Cadeirydd Clive Thomas i’r cyfarfod a’i wahodd i wneud datganiad agoriadol. Bu’r tyst yn ateb cwestiynau’r Pwyllgor.